Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Pili Pala**
**Hen Neuadd Gymuned Pentref Llaneirwg**
**Heol Newydd**
**Trowbridge**
**Caerdydd**
**CF3 1DW**

**Dyddiad yr arolygiad: 2 Gorffennaf 2013**

**gan**

**Branwen Llewelyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/07/2013**

## Ynglŷn â'r cylch

Lleolir Cylch Meithrin Pili Pala yn Neuadd Gymuned Pentref Llaneirwg yn nwyrain Caerdydd.  Fe'i hagorwyd dros ugain mlynedd yn ôl o dan yr enw Cylch Meithrin Llaneirwg ac ers hynny mae wedi symud i'r lleoliad presennol.  Mae wedi lleoli yn ardal Llanrhymni a daw mwyafrif o'r plant o'r ardal hon. Mae rhai yn byw hefyd yn Trowbridge a Rymni. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Plant 1989 a chaiff ei gynnal yn unol â chanllawiau cydnabyddedig Mudiad Meithrin.  Rheolir y lleoliad gan Bwyllgor Rheoli.

Mae'r cylch yn darparu gofal ar gyfer plant o'r gymuned leol a'r ardaloedd o'i chwmpas ar bum diwrnod yr wythnos o 9.30 tan 12.00 ac o 1.00 tan 3.30 yn ystod tymhorau ysgol.  Mae'r cylch yn derbyn plant o ddwy flwydd oed i fyny ac maent yn gadael pan fyddant yn dechrau eu haddysg statudol fel arfer yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Eirwg ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pen y Pîl.

Caiff yr adeilad ei ddefnyddio gan nifer o fudiadau gwahanol.  Mae hyn yn golygu bod angen i'r staff osod yr offer allan ar ddechrau pob sesiwn a'i roi heibio ar y diwedd.  Mae yna neuadd fawr iawn sy'n cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau ac ymarfer corff a dawns, lwyfan, cegin a thoiledau addas ar gyfer y plant. Mae ardal ddeniadol iawn tu allan sy'n cynnwys darn helaeth o dir glas, coed a llwyni aeddfed ac mae wedi'i amgylchynu gan  berth.

Cymraeg yw iaith y cylch ond daw pod plentyn, sef chwe deg un, o gartrefi Saesneg eu hiaith. Allan o'r rhain mae tri deg pump yn cael eu hariannu, deuddeg ohonynt gan Ddechrau'n Deg. Mae'r ardal yn cael ei chydnabod fel u  sy'n ddifreintiedig gyda chanran uchel o deuluoedd lle mae un rhiant.  Mae croeso yn y lleoliad i ddisgyblion ethnig ac roedd rhai'n bresennol adeg yr arolygiad.  Nid oes un plentyn a Saesneg fel ail iaith.  Adeg yr arolygiad, roedd  un plentyn wedi'i nodi ag anghenion addysg ychwanegol.

Caiff naw ymarferwr eu cyflogi gan gynnwys yr arweinydd.  Gweithia pawb gyda'r plant ac maent i gyd yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol i'r blynyddoedd cynnar.  Mae pob un wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant a chymorth cyntaf.  Roedd arolygiad diwethaf Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yng Ngorffennaf 2011 ac arolygwyd y lleoliad gan Estyn yn Nhachwedd 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn derbyn gofal a chymorth rhagorol sy'n sicrhau eu bônt yn ffynnu mewn awyrgylch hapus sy'n eu galluogi i lwyddo a lle y teimlant yn ddiogel iawn;
- mae'r amgylchedd dysgu a'r perthnasau rhwng yr oedolion a'r plant a chyda'r rhieni yn neilltuol;
- mae cyflawniadau a chynnydd y plant yn dda o'u man cychwyn;
- mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth eang o brofiadau diddorol sy'n ymateb yn dda iawn i'w hanghenion a'u diddordebau;
- mae safon yr addysgu'n gyson dda a chaiff dysgu'r plant ei gefnogi'n dda iawn;
- defnyddia'r ymarferwyr ystod eang o brofiadau dychmygus sy'n ennyn diddordeb pob plentyn;
- mae'r plant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol sy'n cymryd rhan weithredol yn eu dysgu, a'r
- asesu drwy arsylwi a'r defnydd effeithiol a wneir o hyn i gynllunio'r camau nesaf

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn rhagorol oherwydd:

- mae diwylliant cadarn, rhanedig o fyfyrio proffesiynol yn bodoli sydd wedi ei seilio ar hunanarfarnu rhagorol;
- mae gan yr arweinydd weledigaeth arbennig o glir a chadarn ynglŷn â'r ffordd ymlaen sy'n cael ei rhannu gan bawb;
- mae hi wedi llwyddo i sicrhau fod pob agwedd o'r ddarpariaeth yn cwrdd ag anghenion heriol y plant yn eithriadol o dda ac yn galluogi pawb i lwyddo;

- mae'r arweinydd wedi creu awyrgylch neilltuol sy'n ofalgar iawn ac sy'n rhoi'r plentyn a'i anghenion wrth ganol pob peth;
- mae ganddi synnwyr rhagorol o bwrpas ac ymrwymiad neilltuol i'r lleoliad;
- mae'r system ragorol o fentora, anwytho ac arfarnu yn cael effaith gadarnhaol iawn ar berfformiad yr ymarferwyr a chyflawniadau'r plant;
- mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth ragorol o sut mae plant ifanc yn dysgu;
- mae partneriaethau strategol rhagorol gydag asiantaethau allweddol yn gwella'n gyson lles a dysgu'r plant;
- ymrwymiad cryf y lleoliad i ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn gwella gwybodaeth ymarferwyr o ddatblygiadau cyfoes yn addysg y blynyddoedd cynnar, a'r
- gwaith tîm neilltuol.

## Argymhellion

A1 Parhau i wella ar fedrau iaith Gymraeg y plant

A2 Gwella ffeiliau asesu'r plant i gynnwys mwy o fanylion ynglŷn â'u cynnydd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

### Safonau: Da

Er bod y plant yn dod i'r lleoliad gydag ystod eang o alluoedd a medrau iaith, mae ymroddiad yr ymarferwyr a'u hymdrechion diflino yn eu galluogi i wneud cynnydd da o'u man cychwyn. Maent yn ymgymryd yn egnïol a brwdfrydig â'u dysgu, yn gwneud dewisiadau hyderus, canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda gyda'u gweithgareddau ac maent oll yn chwarae'n frwd. O ganlyniad, mae pob un yn cyflawni'n dda yn unol â'u cyfnod datblygu.

Er nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad, maent oll yn dysgu geiriau, cymalau pob dydd, rhigymau a chaneuon, yn deall cyfarwyddiadau syml ac weithiau'n defnyddio geiriau Cymraeg wrth chwarae. Maent yn hoffi gwrando ar straeon Cymraeg ac yn trafod llyfrau fel darllenwyr gyda'u gweithwyr allweddol yn ystod eu hamser llyfrau dyddiol. Dewisant eu hoff straeon ac ymlaciant ar glustogau am gyfnodau hir yn gwrando ac ymuno gyda rhannau cyfarwydd. Er nad ydynt yn defnyddio llawer o'r Gymraeg maent yn gwybod tu allan i'r sesiynau Cymraeg, erbyn byddant yn gadael, mae ganddynt seiliau da yn yr iaith Gymraeg. Maent yn gwneud cynnydd da o'r man nad oedd ganddynt ddim gwybodaeth o gwbl. Maent oll yn hoffi gwneud marciau a nodwedd dda iawn yw'r modd mae'r bechgyn yn mwynhau gwneud hyn tu fewn a thu allan.

Mae'r plant i gyd yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae pob un yn mwynhau creu cerddoriaeth, dawns a defnyddio pypedau i gyfathrebu meddyliau a theimladau ac maent oll yn mwynhau cynhyrchu peintiadau lliwgar. Mae eu medrau rhifedd yn datblygu'n dda ac maent yn rhifo hyd at ddeg gan ddefnyddio'u bysedd ac yn gwneud marciau gyda rhifau wrth lanw tocynnau loteri. Mae bechgyn yn arbennig yn mwynhau defnyddio arian go iawn yn y siop. Mae medrau rhif pob un yn datblygu'n dda pan fyddant yn prynu rhywbeth yn y farchnad fach gan ddefnyddio til i dderbyn arian a rhoi newid. Maent yn gwneud defnydd hyderus o'r cyfrifiadur a'r chwaraewr cryno ddisg ac mae hyn yn eu cynorthwyo i ddysgu'n dda medrau TGCh.

### Lles: Rhagorol

Mae'r perthnasau arbennig yn y lleoliad ac adborth cadarnhaol yr ymarferwyr sy'n sicrhau fod y plant yn profi mwynhad llwyddiant yn helpu'r plant i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae pob plentyn, yn ddieithriad, yn awyddus i ddod i'r feithrinfa ac yn mwynhau pob munud yno. Mae pob un yn dod i mewn yn hyderus a mynd yn syth at eu dewis o'r ystod o weithgareddau sy'n cael eu darparu ar eu cyfer. Maent yn llwyr ymgolli'n gyflym iawn yn yr hyn maent yn gwneud ac yn rhoi o'u gorau. Mae pob un yn eiddgar i ddysgu ac mae'r profiadau sy'n eu denu'n llwyr yn gwneud dysgu'n brofiad naturiol iddynt.

Maent yn ffynnu mewn cymuned ddysgu sy'n hynod o gefnogol, egnïol ac yn eu galluogi i lwyddo. Mae ansawdd rhagorol y perthnasau, y sicrwydd meddwl cyson a geir gan yr oedolion a'u tynerwch tuag at y plant yn gwneud i'r plant deimlo'n ddiogel a hapus ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu ymddygiad da. Mae pob un yn gwrtais; maent yn poeni am eu ffrindiau ac yn chwarae'n dda iawn gyda'i gilydd. Mae oedolion yn rhoi cyfleoedd cyson i'r plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â'r hyn y maent yn gwneud yn y feithrinfa. Mae hyn yn cynorthwyo'r plant i ddatblygu lefelau rhagorol o annibyniaeth, hyder ac ystyriaeth i eraill.

Mae pwyslais cryf iawn ar roi digon o amser i fyrbrydau pan fydd y plant yn mwynhau siarad gyda'u ffrindiau ac oedolion gan ddatblygu medrau cymdeithasol rhagorol. Mae'r plant yn mwynhau eu ffrwythau ac yn gwybod eu bod yn dda iddynt ac yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn hoff o weithgareddau corfforol ac yn disgrifio ac arddangos yn glir sut mae ymarfer yn gwneud i'w calonnau guro'n gynt a'u gwneud yn fyr o anadl.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae oedolion yn cynllunio ystod eang o brofiadau diddorol a dychmygus sy'n sicrhau fod y plant i gyd yn mwynhau eu dysgu. Mae'n cwrdd â'u diddordebau'n dda gan fod yr oedolion yn gofyn i'r plant beth garent wybod a gwneud ac yn defnyddio hwn fel eu man cychwyn. O ganlyniad mae'r ddarpariaeth yn diddori'r plant am gyfnodau hir wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau sydd yn ystyrlon iddynt. Caiff y cynllunio cyfnod byr, canolig a hir ei seilio ar ardaloedd dysgu'r Cyfnod Sylfaen ac mae'n sicrhau fod y plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae'r oedolion yn cyd-weithio'n dda er mwyn sicrhau fod y cynllunio'n adlewyrchu'n dda iawn athroniaeth plentyn-ganolog y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio themâu diddorol er mwyn gwneud y dysgu'n berthnasol a phwrpasol ac adeiladu'n gyson ar yr hyn mae'r plant yn gwybod a deall. Gweithiant yn effeithiol fel tîm i weithredu'r hyn a gynlluniwyd ond ar yr un pryd maent yn hyblyg. Os yw'r plant yn ymddiddori'n arbennig mewn gweithgaredd neu os bydd rhywbeth annisgwyl yn digwydd, maent yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau.

Mae'r plant yn dewis o'r ystod eang o weithgareddau atyniadol a ddarperir ac mae hyn yn datblygu'n dda eu hunanhyder a'u hannibyniaeth. Mae'n sicrhau hefyd fod y plant yn ymgymryd llawn cystal mewn gweithgareddau sydd wedi eu cyfeirio oherwydd y maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau. Mae'r cydbwysedd hyn o weithgareddau a gallu'r ymarferwyr i ymyrryd yn effeithiol iawn er mwyn symud y dysgu yn ei flaen yn nodweddion da. Mae oedolion yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn dda ym mhob maes dysgu ac yn sicrhau eu bod oll yn gwneud cynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Maent hefyd yn darparu llawer o gyfleoedd i'r plant fwynhau profiadau newydd a diddorol, datrys problemau ac maent yn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain gan ddatblygu eu medrau meddwl yn dda. Mae ymarferwyr yn rhoi i'r plant gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol a dealltwriaeth o bethau byw trwy eu defnydd da o'r ardal tu allan. Mae'r oedolion yn adnabod y plant yn dda iawn trwy'u system o weithwyr allweddol a chynlluniant weithgareddau penodol er mwyn cwrdd â'u gwahanol anghenion a galluoedd a'u cynorthwyo i wneud cynnydd da.

O ganlyniad i'r profiadau dysgu cyfoethog ac egnïol a'r perthnasau cadarnhaol, mae'r plant yn datblygu hyder, goddefgarwch a medrau cymdeithasol da. Mae hyn yn eu galluogi i dderbyn yn gwbl naturiol blant ac oedolion o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol. Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig. Maent yn dathlu gwyliau fel Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen, yn canu'r anthem genedlaethol y maent yn gwybod ar eu cof a gwneud bwydydd traddodiadol Cymreig. Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei ddatblygu'n dda trwy sesiynau penodol sy'n fywiog a diddorol a gan yr oedolion sydd wedi dysgu'r iaith eu hunain ac sy'n fodelau rôl dda. Mae ymarferwyr yn annog y plant i siarad Cymraeg bob amser ac yn datblygu eu geirfa a'u patrymau iaith trwy rigymau, caneuon a storïau sy'n cynnwys geirfa ac iaith gyfoethog. Er bod y plant yn gwneud cynnydd da iawn o'u man cychwyn nid oes ganddynt eto'r medrau i'w defnyddio'n naturiol wrth chwarae. Caiff ymwybyddiaeth o gynaladwyedd a'r dylanwad ar yr amgylchedd hefyd ei hyrwyddo'n dda trwy ailgylchu a gwneud gwrtaith i fwydo'r planhigion a dyfant o had.

**Addysgu: Da**

Mae'r oedolion profiadol a chanddynt gymwysterau da yn defnyddio ystod o strategaethau dychmygus i ddenu'r plant i ddysgu. Mae gweithgareddau ystyrlon fel chwarae rôl yn y siop gan ddefnyddio arian go iawn yn sicrhau eu bod yn dysgu'n naturiol trwy chwarae. Mae'r addysgu'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda, hefyd ei athroniaeth gan ei fod yn blentyn-ganolog, hyblyg a diddorol. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant ac maent yn eu galluogi i gwrdd â'r rhain trwy eu system o weithwyr allweddol. Mae hon yn rhoi iddynt ddealltwriaeth ragorol o'r plant ac yn eu cynorthwyo i'w cefnogi a chwrdd â'u hanghenion unigol. Mae oedolion yn rheoli ymddygiad yn benigamp wrth atgyfnerthu'n dawel a bod yn sensitif i bersonoliaethau gwahanol y plant. Maent yn cefnogi'r dysgu'n dda trwy ddefnyddio cwestiynau agored sy'n datblygu medrau meddwl y plant yn dda.

Mae asesu wedi'i seilio ar arsylwadau o'r plant sydd yn cael eu cofnodi'n anffurfiol ac yna'u defnyddio i gwblhau ffeiliau unigol y plant. Caiff y rhain eu trafod mewn cyfarfodydd staff a'u defnyddio i lywio'r cam nesaf o gynllunio. Er bod y ffeiliau unigol ar y cyfan yn rhoi darlun da o gynnydd y plant nid oes ynddynt ddigon o fanylion am eu cyflawniadau ym mhob maes dysgu. Mae'r rhieni yn derbyn y ffeiliau pan fydd eu plant yn gadael yn ogystal ag adroddiadau ar eu cynnydd a'u cyflawniadau ym mhob maes dysgu. Mae ymarferwyr bob amser yn barod i siarad gyda'r rhieni neu ofalwyr cyn neu ar ôl sesiynau i drafod cynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r oedolion wedi creu amgylchedd gofalgar a chefnogol iawn ac maent yn rhoi arweiniad sensitif i'r plant ym mhob peth. Mae'r staff yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y plant. Maent yn cynorthwyo'r plant i ddysgu am bwysigrwydd tegwch, gonestrwydd a gwirionedd gan arddangos y nodweddion yma eu hunain. Rhoddant i'r plant gyfleoedd da i gymdeithasu amser byrbrydau a chyda ymwelwyr o'r gymuned ac mae'r achlysuron hyn helpu'r plant i

ddatblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd parchu eraill. Mae pob un yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg yng nghyd-destun eu bywydau yn y lleoliad ac maent yn cael cyfleoedd cyson i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau yn y cylch chwarae. Caiff plant eu hannog i gymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd ac ymddwyn yn dda. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o fyw a rhannu gydag eraill ac fe'u hanogir i arsylwi ar a meddwl am ryfeddodau'r byd naturiol yn eu hardal hyfryd tu allan. Wrth ddathlu gwyliau a gwneud a phrofi gwahanol fwydydd maent yn datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau. Mae oedolion yn datblygu'n dda ymwybyddiaeth y plant o fwyta'n iach ac o gadw'n heini drwy ddarparu byrbrydau iachus a sesiynau ymarfer corfforol cyson.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi digon o amser i'r plant ymgartrefi'n raddol pan fyddant yn dechrau a bydd athrawon o'r ysgolion y byddant yn mynd iddynt yn ymweld â nhw cyn iddynt adael. Mae hyn yn eu helpu i ymgartrefu yn y dosbarth meithrin. Mae gweithdrefnau da a sefydledig gyda gwasanaethau cynhaliaeth broffesiynol leol i ddarparu cefnogaeth arbenigol i blant pan fydd angen. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad llawn i bob agwedd o'r dysgu a hefyd i bob peth sy'n digwydd yn y lleoliad. Mae'r rhieni'n cymryd rhan amlwg yn addysg eu plant.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol er mwyn diogelu plant ac maent yn cael eu gweithredu'n dda. Mae'r ymarferwyr yn cynnal asesiadau risg pan fydd angen ac mae pawb wedi cael hyfforddiant mewn cymorth cyntaf. Yr arweinydd yw'r swyddog diogelu plant ac mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant yn ddiweddar ac yn gwybod y camau i'w cymryd. Mae'r gweithdrefnau'n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Mae'r lleoliad yn defnyddio'n dda arbenigedd y gwasanaeth iechyd ac eraill yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ethos sy'n bodoli yn y lleoliad yn arbennig o gynhwysol, gofalgar sydd wedi'i seilio'n gadarn ar anghenion y plentyn. Defnyddia'r ymarferwyr yr ystod eang o gefndiroedd y plant mewn ffordd ragorol a naturiol i ddathlu amrywiaeth ac o ganlyniad mae pob oedolyn a phlentyn yn oddefgar a charedig ac nid oes unrhyw bryder ar ran y plant. Mae perthnasau rhagorol yn sail gadarn i fywyd a gwaith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u hanghenion a diddordebau yn arbennig o dda o ganlyniad i'r system o weithwyr allweddol a ddefnyddir yn gyson. Maent yn hyrwyddo'n gyson safonau uchel o ymddygiad ac yn sicrhau cyfartaledd.

Mae'r gymhareb oedolion i blant yn rhagorol a chyfranna hyn, ynghyd ag adnoddau o ansawdd da iawn, yn helaeth at ragoriaeth y ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r adeilad a'r adnoddau o safon uchel iawn a darparant amgylchedd dysgu sy'n atyniadol a chyffrous. Mae'r ardal o laswellt llethrog yn darparu cyfleoedd da iawn ar gyfer datblygu medrau datrys problemau'r plant wrth iddynt arbrofi gyda phethau gallant eu gwthio a thynnu. Mae'r gwahanol ardaloedd tu allan yn rhoi cyfleoedd da iawn hefyd ar gyfer chwarae rôl ac mae'r ardal allanol yn cyfoethogi'u dysgu'n neilltuol. Mae'r lleoliad yn ymestyn ei ddefnydd integredig o ddysgu tu allan a dan dô'n llwyddiannus iawn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r plentyn a'i anghenion unigryw yn ganolog i bob peth yn y lleoliad. Mae'r arweinydd wedi creu ethos arbennig sy'n galluogi pobl i dyfu ac sy'n canolbwyntio ar les y plant gan sicrhau fod pob plentyn yn cyflawni ei botensial. Mae'n llwyddo gwneud hyn oherwydd ei hymroddiad arbennig, ei hymdeimlad o bwrpas canmoladwy a'i gweledigaeth glir iawn ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Mae'n rhoi cyfeiriad clir iawn i fywyd a gwaith y lleoliad a'r broses o wella sydd wedi seilio'n gadarn ar wybodaeth drylwyr o sut mae plant ifanc yn dysgu.

Mae hi'n arwain trwy esiampl bersonol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn o bawb ac mae'n eu hysbrydoli i'w cyrraedd. Gwelir ei hathroniaeth yn safon ragorol y gofal a'r gefnogaeth, y profiadau plentyn-ganolog a ddarperir a'i hymdrechion diflino i sicrhau fod perfformiad y lleoliad yn gwella'n gyson. Mae hi a'i dirprwy yn deall a chyflawni eu rolau'n wych ac yn rhannu eu gwerthoedd, nodau ac amcanion yn gydwybodol drwy esiampl bersonol. Mae'r arweinydd yn dirprwyo gwaith yn dda i'r dirprwy ac mae'n rheoli staff yn rhagorol ac ysbrydoledig ac yn eu datblygu'n broffesiynol drwy hyfforddiant. Mae effaith hyn i'w weld yn y ddarpariaeth ddychmygus, plentyn-ganolog a'r hinsawdd arbennig y mae hi wedi creu sy'n galluogi plant i ddysgu.

Mae'r cynllun gwella lleoliad sy'n deillio o hunanarfarnu'r lleoliad yn rhoi cyfeiriad clir i'r feithrinfa. Mae'r arweinydd yn adnabod perfformiad y lleoliad yn dda iawn ac yn defnyddio gwybodaeth gadarn i wneud penderfyniadau effeithiol iawn. Mae hi'n cyflawni ei dyletswyddau cyfreithiol yn llawn ac yn bodloni'r holl flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r holl ymarferwyr yn cyflawni eu rolau'n neilltuol o effeithiol ac mae pob un yn cyfrannu'n frwdfrydig tug at y cynllunio strategol.

Mae'r arweinydd wedi cyflwyno a gweithredu gweithdrefnau rhagorol ar gyfer anwytho, mentora a gwerthuso staff sy'n cael effaith cadarnhaol iawn ar berfformiad ymarferwyr ac, o ganlyniad, ar gyflawniadau plant. Mae ei harweinyddiaeth ysbrydoledig a medrau rhyngbersonol rhagorol wedi ei galluogi i ddatblygu tîm o ymarferwyr hapus iawn sy'n cydweithio'n arbennig o dda. Mae'r perthnasau y mae hi wedi datblygu gyda'r rhieni yn rhagorol ac wedi'u seilio ar ymddiriedaeth; mae hyn yn cyfrannu'n fawr at les a chynnydd y plant.

Mae'r pwyllgor rheoli yn wybodus iawn ynglŷn â phob peth sy'n digwydd yn y lleoliad. Mae ei aelodau'n deall a chyflawni eu rolau yn dda iawn, er enghraifft, yn eu chwilio eang a llwyddiannus am adeiladau newydd addas. Mae ganddynt wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad a byddant yn trafod hyn yn eu cyfarfodydd rheolaidd. Mae'r pwyllgor yn gwneud defnydd da o wybodaeth gyflawn er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol; mae'n cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfnarnu'n rhagorol. Mae'r lleoliad yn adnabod yn gywir iawn ei gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae'r arweinydd yn flaengar iawn wrth geisio barn rhieni a gwarchodwyr a chaiff y rhain eu hystyried yn ofalus gan ymarferwyr mewn cyfarfodydd staff ac yn aml iawn caiff awgrymiadau eu gweithredu. Fel hyn mae'r lleoliad yn sicrhau fod rhieni a gwarchodwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o hunanarfarnu a bod hwnnw'n adlewyrchu'n dda iawn gyfraniad y rhanddeiliaid; mae hon yn nodwedd ragorol. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol o gefnogaeth athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol ac maent yn gweithredu ei hargymhellion yn effeithiol.

Yn dilyn y broses hunanarfarnu cynhyrchir cynllun gwella lleoliad sy'n dangos ymwybyddiaeth ragorol o berfformiad y lleoliad. Mae'r targedau ar gyfer gwelliant yn fanwl gywir, wedi'u blaenoriaethu'n dda, yn gyraeddadwy ac yn sicrhau gwelliannau cadarnhaol i bob plentyn. Mae'r cynllun yn rhoi cyfeiriad clir i fywyd a gwaith y cylch. Mae cynnydd tuag at gyrraedd y targedau'n cael ei fonitro'n gyson. Mae'n canolbwyntio ar godi safonau trwy osod targedau heriol ar gyfer gwella darpariaeth a gwella ymhellach rôl y cylch yn y gymuned. Mae'n cymryd i ystyriaeth yn rhagorol y symud mewn amser byr i adeilad newydd ac yn canolbwyntio ar sicrhau y bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth, cryfhau cysylltiadau gyda'r ysgolion mae'n bwydo a chyfoethogi'r cwricwlwm. Bydd hyn yn sicrhau effaith cadarnhaol ar les a safonau plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n benigamp gyda nifer o asiantaethau er mwyn gwella'r ddarpariaeth a sicrhau'r deilliannau gorau posib mewn ardal heriol. Mae'r berthynas agos iawn gyda Dechrau'n Deg o safbwynt hyfforddiant a chyllid yn cael effaith fuddiol ar les a chynnydd y plant. Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gydag athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol ar gynllunio, hunanarfarnu a hyfforddiant. Mae hi, yn ei thro, yn darparu cefnogaeth a her sy'n cynorthwyo'r lleoliad i symud yn ei flaen a gwella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn dylanwadu'n arwyddocaol ar gynnydd a lles y plant ac maen nodwedd ragorol. Mae'r bartneriaeth gyda swyddog Mudiad Meithrin yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg i'r plant a'r ymarferwyr ac mae ei chefnogaeth yn ffrwythlon iawn.

Mae perthnasau gyda rhieni yn rhagorol ac yn hanfodol bwysig i lwyddiant y lleoliad. Gofynnir am eu barn yn rheolaidd a rhoddir ystyriaeth ddifrifol iddo. Mae ffynonellau cyfathrebu rhagorol gyda nhw drwy lythyron newyddion ac yn anffurfiol ar sail ddyddiol ac mae rhai'n helpu'n wirfoddol. Mae'r pwyllgor rheoli'n cynnwys rhieni ac maent yn cefnogi'r lleoliad mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys codi arian.

Mae perthnasau ffrwythlon iawn gyda'r ysgolion y bydd y plant yn trosglwyddo iddynt. Mae athrawon o'r ysgolion yn ymweld â phlant y cylch ac maen nhw'n mynd ar ymweliad â'r ysgolion cyn dechrau yn y feithrin. Gwneir defnydd da iawn hefyd o adnoddau yn y gymuned er ychwanegu at ddysgu'r plant, er enghraifft, y llyfrgell lle yr ânt yn rheoliad.

**Rheoli adnoddau:  Rhagorol**

Mae gan y cylch gyflenwad rhagorol o staff profiadol ac ymroddedig iawn sy'n meddu ar gymwysterau da.  Fe'i lleolir yn dda iawn trwy eu system o weithwyr allweddol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u harbenigedd a sicrhau darpariaeth dda.  Maent yn defnyddio adnoddau tu mewn ac allan yn effeithiol dros ben er mwyn darparu profiadau diddorol a gweithgar i'r plant.  Maent yn ystyried yn ofalus iawn effaith yr adnoddau ar y dysgu a'r addysgu ac yn cynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol.  Er enghraifft, mae'r cynllun gwella yn cynnwys blaenoriaethau adnoddau ar gyfer yr adeilad newydd.  Maent yn defnyddio'r ardal tu allan mewn ffordd ragorol i ddatblygu medrau plant ym mhob maes dysgu ac mae hyn yn un o brif gryfderau'r ddarpariaeth.

Caiff adnoddau a chyllid y lleoliad eu defnyddio'n wych er mwyn cynnig y ddarpariaeth orau.  Mae treuliau'n cael eu hystyried yn ofalus iawn a'u blaenoriaethu er mwyn cwrdd â thargedau gwelliant.  Caiff penderfyniadau cyllidol eu harfarnu'n effeithiol gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol wrth godi safonau.  Mae'r lleoliad yn darparu gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhandaliad**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd un ar bymtheg o atebion i holiadur rhieni/ gwarchodwyr. Roedd bron pob un yn dweud eu bod yn hapus gyda darpariaeth y lleoliad. Yn ystod yr arolygiad rhoddwyd ystyriaeth i unrhyw gryfderau neu feysydd i'w gwella a nodwyd gan rieni. Cynhaliwyd trafodaethau gyda detholiad mawr o rieni a dywedasant eu bod yn hapus gyda phob agwedd o'r ddarpariaeth.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Yn ystod yr arolygiad roedd plant yn awyddus iawn i ddod i'r feithrinfa ac aethant i gyd yn hyderus i weithgareddau o'u dewis. Mae eu perthnasau gyda'u ffrindiau ac oedolion yn rhagorol ac maent yn hynod o hapus yn y lleoliad. Roedd y plant oedd newydd ddechrau yn sefydlu perthynas glos yn gyflym gyda'u gweithwyr allweddol ac oedolion eraill ac roeddent yn amlwg yn teimlo'n ddiogel. Mae'r ethos croesawgar a chynhwysol yn sicrhau eu bod oll yn teimlo'n hapus a diogel. Roeddent yn mwynhau siarad gydag oedolion gan gynnwys ymwelwyr ac yn gofyn ac ateb cwestiynau'n hyderus. Mae pob plentyn yn dangos ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth ac maent yn gwybod bod yr ymarferwyr yno i'w helpu.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Branwen Llewelyn Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |